



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIAANT **GOGLEDD CYMRU**
NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau o Gyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

27 Ebrill 2017

10:30 – 12:30

Optic, Parc Busnes Llanelwy

Yn Bresennol: Cyng Gareth Roberts, Bethan Jones Edwards, Claire Sullivan (ar ran Lynda Colwell), David Worrall, Vin West, Wendy Jones, Neil Ayling, Mary Wimbury, Cyng Bobby Feeley, Morwena Edwards, Sharon Hinchcliffe, Nicola Stubbins, Richard Debecki, Margaret Hanson, Morag Olsen, Clare Field, Teresa Owen, Dawn Docx, Jenny Williams

Ymddiheuriadau: Rob Smith, Cyng Christine Jones, Lynda Colwell, Debbie Shaffer

Yn bresennol: Andy Roach

Eitem	Nodiadau	Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u>	
2.	Anerchiad gan y Cadeirydd – Cyng Gareth Roberts Croesawodd y Cadeirydd newydd, Cyng Gareth Roberts, bawb i'r cyfarfod a rhoddodd amlinelliad o sut y byddwn yn rheoli'r cyfarfodydd, gan gyfeirio at y ddogfen 'the way we work'. Anogodd aelodau i gymryd rhan yn y cyfarfodydd gan fod croeso i bob barn. Mae'r Cyng Roberts yn teimlo bod angen i'r Bwrdd uno fel tîm i alluogi gweithio mewn partneriaeth a darparu rhaglen waith y Bwrdd. Gofynnodd Cyng Roberts, pan fo dirprwy yn cael ei anfon i gyfarfodydd y Bwrdd, ei fod ef a BJE yn cael gwybod am hyn. Fel Bwrdd mae angen i ni gytuno ar Is-Gadeirydd, gofynnodd Cyng Roberts fod enwebiadau'n dod i law iddo ef a BJE erbyn 22 Mai i gynnwys enwebwr, eilydd, a pharagraff byr gan y sawl sy'n cael ei enwebu. Gofynnir i aelodau a enwebir ddweud gair yn y cyfarfod nesaf fel rhan o'r broses benodi.	Enwebiadau ar gyfer swydd Is-Gadeirydd i gael eu derbyn erbyn 22 Mai, Is-Gadeirydd i gael ei gytuno yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 2 Mehefin 2017

3.	<p><u>Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf</u></p> <p>Gofynnodd VW am ddiwygiad – tudalen 10 - dylai 'bias' ddarllen 'unconscious bias'. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.</p>	Diwygiad i gael ei wneud
4.	<p><u>Strategaeth Iechyd Meddwl</u></p> <p>Cyflwynodd Andy Roach y strategaeth gan dynnu sylw at y negeseuon allweddol a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fframwaith Mesurau Arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n gyrru'r strategaeth. • Cyfeiriad lefel uchel o deithio, gwaith yn barhaus ar y strategaeth gyda phartneriaid. • Dull o'r gwaelod i fyny, strategaeth gwbl integredig. • Gwaith o ran cyllid, gweithlu ac ystadau yn dal i'w wneud. • Nod i gwblhau erbyn yr hydref gan gynnwys cynlluniau darparu. • Cefnogaeth dda iawn gan yr holl bartneriaid. • Trosi hyn yn wasanaethau diogel ac effeithiol a herio'r status quo. • Mae llywodraethu a hynafedd yn allweddol ac mae angen trafodaeth bellach. <p>Rhoddodd Aelodau'r Bwrdd ganmoliaeth i'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth a gwnaed y sylwadau canlynol:-</p> <p>VW – mae dau brif faes fel pe baent ar goll - cyfeiriad at Daliadau Uniongyrchol a chysylltiadau i'r Canlyniadau Lles.</p> <p>NA – croesawodd y ffaith y bydd gan anableddau dysgu a Chamddefnyddio Sylweddau eu strategaethau eu hunain. Gan gyfeirio at y caffis argyfwng – gellid defnyddio dysgu o ddatblygu caffis dementia i gynllunio'r rhain.</p> <p>TO – Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn edrych ar yr holl ganlyniadau a bydd y strategaeth hon ynghyd â nifer o rai eraill yn dod dan y datblygiad hwn. Ychwanegu fod angen i ni fod yn glir beth rydym yn ei olygu wrth y termau 'atal' ac 'adferiad'.</p> <p>DW – cyfeiriodd at Iechyd Gwyrdd a defnyddio ein hamgylcheddau i hyrwyddo Lles.</p> <p>RD – Mae materion yn y fan a'r lle wedi'u nodi a rhai bylchau wedi'u llenwi, wrth aros am y strategaeth derfynol.</p> <p>O ran llywodraethu, nododd AR fod adolygiad o lywodraethu mewnol yn y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, mae cyfle i ni yng Ngogledd Cymru gael llywodraethu cadarn ar waith drwy'r strwythur llywodraethu sy'n dod i'r amlwg o amgylch Iechyd Meddwl. Nododd AR nad oedd y Bwrdd Gyda'n Gilydd Dros Iechyd Meddwl wedi gweithio'n dda</p>	Gorffennaf 2017 – Strategaeth ddiwygiedig i gael ei chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd hwn

	<p>hyd yma ac mae'r cyfarfodydd wedi dod i ben. Caiff cyfarfod o'r Bwrdd Gyda'n Gilydd Dros lechyd Meddwl ei drefnu ym mis Mehefin. Cytunwyd fod AR yn dychwelyd i gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Gorffennaf lle bydd y strwythur llywodraethu arfaethedig a chysylltiadau rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gyda'n Gilydd Dros lechyd Meddwl yn cael eu hegluro.</p>	
5.	<p><u>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</u></p> <p>Gwnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad ar gael i'r rannu a diolchodd y Bwrdd i BJE am ei gwaith wrth gwblhau'r adroddiad.</p>	
6.	<p><u>Ffrydiau Gwaith Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (cwmpas a chynlluniau darparu i'w cymeradwyo gan y Bwrdd):</u></p> <p><u>Gofalwyr</u> Rhoddodd ME drosolwg o'r cynllun ac egluro ei bwrpas:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae dogfen Dechrau ffrwd waith yn drosolwg drafft ar gyfeiriad a'r gwaith o amgylch gofalwyr. Nid yw'n gyflawn ac mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi barn.Mae'r cwmpas yn amlinellu beth gellir ei gyflawni dros y 12 mis nesaf sy'n ychwanegu gwerth ar waith sydd eisoes yn cael ei wneud. • Hawis Jones yw'r Rheolwr Busnes Rhanbarthol ac mae'n mynychu grwpiau Gofalwyr. • Amserlen – canolbwynt presennol yw 1 Ebrill 2018 <p>Adborth gan y Bwrdd VW - Teimlai fod hyn yn gadarnhaol fodd bynnag mae angen cynnwys taliadau uniongyrchol hefyd oherwydd ei bwyslais cryf yn y Ddeddf. TO – mae hyn yn gam ymlaen ac mae ffocws da a chysylltiadau at drafodaethau cynharach ar lechyd Meddwl ac anghenion gofalwyr. MH – Cefnogi sylw VW o ran Taliadau Uniongyrchol ond hefyd yn nodi fod Gofalwyr yn gofalu am oes neu gyfnodau o amser. Ydym yn helpu gofalwyr i symud i ffwrdd i rywbeth arall ar ôl eu rôl ofalu. Mae gofalwyr cudd hefyd a sut ydym yn cael pobl i gydnabod eu bod yn ofalwyr. CS – Nododd fod gwasanaethau diwedd oes yn wahanol er enghraifft cwnsela / gwasanaethau Meddyg Teulu.</p>	<p>Diweddariadau ffrwd waith gan feysydd eraill – BJE i drefnu drwy'r Cadeirydd neu grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru</p>

	<p>O ran y cwmpas a'r cynlluniau darparu ar gyfer y ffrydiau gwaith blaenoriaeth eraill, (Plant, Anableddau Dysgu a Phobl Hŷn), gofynnodd y Cadeirydd i BJE gadarnhau gyda Rob Smith fel Cadeirydd Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru y bydd rhain ar gael erbyn cyfarfod mis Mehefin. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd RS yn cysylltu gyda Cyng Roberts neu BJE.</p>	
7.	<p><u>Cyllidebau Cyfun - Grantiau Trydydd Sector - Dave Worrall</u></p> <p>Roedd DW am godi'r posibilrwydd o gael cyllideb gyfun ar gyfer grantiau trydydd sector, oherwydd fod nifer o'r sefydliadau trydydd sector yn gweithio ar draws Gogledd Cymru.</p> <p>Fel Cadeirydd y cyfarfod Cyllidebau Cyfun Rhanbarthol, atgoffodd NS aelodau'r Bwrdd, yn dilyn papur a gafodd ei ystyried gan y Bwrdd, mae wedi cytuno'r meysydd i'r grŵp cyllidebau cyfun eu datblygu. Y gofyniad yn y Ddeddf yw Cartrefi Gofal a Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Rydym hefyd yn edrych ar Ofalwyr, Cronfa Gofal Integredig, Plant gydag Anghenion Cymhleth. Atebodd WJ fod Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy wedi edrych ar hyn ac mae'n anodd cael y wybodaeth ofynnol.</p> <p>Cytunwyd fod DW a CS yn cydweithio i ysgrifennu papur i'r Bwrdd ar sut maen nhw'n cynnig cyflawni hyn. Bydd DW yn cyflwyno'r papur ym mis Medi 2017.</p>	<p>Medi 2017 – Papur wedi'i gyflwyno gan David Worrall a Claire Sullivan</p>
8.	<p><u>Defnyddio Dewis Cymru neu Info Engine – Dave Worrall</u></p> <p>Roedd DW am i'r Bwrdd drafod pa system ddylai partneriaid fod yn ei chefnogi gan fod tair system - DEWIS Cymru, Info Engine a WCCIS.</p> <p>Eglurwyd bod WCCIS yn system gwybodaeth reoli cleientiaid, nid cronfa ddata o adnoddau i'r cyhoedd. Mae DEWIS Cymru yn system sy'n cael ei chydabod a'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Nododd BJE fod tîm DEWIS cenedlaethol mewn trafodaethau gydag Info Engine. Mae DEWIS Cymru yn cefnogi darparu'r Ddeddf, bu rhai materion sy'n cael sylw ar hyn o bryd o ran y Gymraeg yn y cyfeiriadur o wasanaethau. Codwyd pryderon gan WJ ac MH o amgylch diogelu a pha wiriadau a wnaed ar yr adnoddau yn y cyfeiriadur. Eglurodd BJE fod y system yn gweithio ar sail newyddiadurwr a golygydd, lle mae'r golygydd yn rhyddhau'r wybodaeth i'r cyfeiriadur – mae rôl golygyddion felly yn hanfodol.</p>	<p>DEWIS – arddangosiad i gael ei roi i'r Bwrdd</p>

	<p>Cytunwyd i wahodd tîm cenedlaethol DEWIS i fynychu'r bwrdd partneriaeth i gyflwyno'r system.</p>	
9.	<p><u>Cronfa Gofal Sylfaenol Cenedlaethol 2017-18 Llythyr gan Grant Duncan</u></p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i gydweithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am ddiweddariad o ran y gronfa a phryd all y Bwrdd ddisgwyl cael trafodaethau neu drosolwg o'r cynigion ar gyfer defnyddio'r gronfa. Atebodd MO ei bod yn teimlo ein bod yn symud at gam gwahanol. Mae'r gronfa hon wedi cefnogi gofal sylfaenol ond mae cronfa glwstwr hefyd. Mae angen i rai o'r prosiectau a swyddi a ariannwyd o'r blaen symud at gyllid craidd bellach. Mae trafodaethau ar ddefnyddio'r gronfa yn digwydd yn y timau ardal. Roedd gweithdy yr wythnos hon a oedd yn edrych ar beth sydd wedi'i ariannu a'r canlyniadau. Cytunodd MD i ddarparu cyflwyniad ar y Gronfa mewn cyfarfod yn y dyfodol. Nododd NS ei bod yn anodd symud gwasanaethau i gyllid craidd i ryddhau grantiau. Dywedodd MH fod yr arian yn cael ei sbarduno gan Strategaeth Gofal Sylfaenol LIC. BJE ac MD i gytuno ar ddyddiad.</p> <p>Nododd JW yr hoffai Dr Richard Louis o Brifysgol Bangor gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar y gwaith maent wedi'i wneud o ran yr asesiad gofal sylfaenol. BJE i wahodd i'r un cyfarfod.</p>	<p>Cyflwyniad ar y Gronfa Gofal Sylfaenol Cenedlaethol i'r Bwrdd – dyddiad i'w gytuno</p>
10.	<p><u>Cronfa Gofal Integredig</u></p> <p>Dywedodd NW fod adroddiad Ch4 2016/17 yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.</p> <p>Mae dyraniad Cronfa Gofal Integredig ar gyfer 2017/18 wedi dod i law. Mae gofynion adrodd bellach wedi newid ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ac maent wedi'u seilio ar themâu ar draws y rhanbarth. Mae LIC yn cydnabod bod hon yn flwyddyn drawsnewid ar gyfer adrodd a fydd yn golygu cydweithio i ddefnyddio arian yn y ffordd iawn i'n dinasyddion. Bydd y Gronfa Gofal Integredig yn parhau i gael ei hariannu am y 3 blynedd nesaf.</p>	
	<p><u>Unrhyw fater arall</u></p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd ystyried a ddylid cynnal cyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau ar draws Gogledd Cymru. Hefyd gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd a hoffent i ran o'r cyfarfod fod yn fwy anffurfiol neu gael cyfle i ymweld â gwahanol wasanaethau fel mae lleoliadau cyfarfodydd yn caniatáu. Aelodau i gyflwyno awgrymiadau i BJE.</p>	

	Dyddiad y cyfarfod nesaf 2 Mehefin 2017 am 10:30am – 12:30pm, Optic, Parc Busnes Llanelwy	
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------	--